Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYHOEDDIAD

# Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: strategaeth 2023 i 2025

Yn nodi amcanion allweddol y Panel ar gyfer y 3 blynedd nesaf.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 20 Mehefin 2023

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 20 Mehefin 2023

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Cip ar y Panel

Cyd-destun ein Gwaith

Ein nodau a’n ffyrdd o weithio

Edrych ymlaen

Amcanion Strategol

Mesur Llwyddiant

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cyflwyniad gan y Cadeirydd

Yn y Strategaeth hon, mae'r Panel yn nodi ei amcanion allweddol ar gyfer y 3 blynedd nesaf i helpu rhanddeiliaid a'r cyhoedd i ddeall y cyd-destun yr ydym yn gwneud ein Penderfyniadau ynddo a'n nodau wrth gefnogi democratiaeth leol yng Nghymru.

Rydym yn cydnabod y cyfraniad pwysig y gall polisïau cydnabyddiaeth ariannol ei wneud at sicrhau bod democratiaeth leol yn gweithio'n effeithiol. Mae'n bwysig inni fod ein penderfyniadau'n cael eu hystyried yn rhai teg a rhesymol a'u bod yn cael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw.

Rydym wedi ystyried argymhellion yr **Adolygiad 10 mlynedd** diweddar o effeithiolrwydd y Panel a bydd ein ffordd o weithio'n parhau i roi gwerth ar benderfyniadau annibynnol ar sail ymchwil a thystiolaeth dda, ymgysylltu a gwrando cryf ac ymrwymiad i weithio gydag eraill i hyrwyddo democratiaeth leol.

Yn olaf, mae'r Panel yn deall bod ganddo rôl i hybu dealltwriaeth ehangach o waith aelodau cynghorau, annog cyfranogi mewn democratiaeth leol a gwella amrywiaeth ein cynghorwyr er mwyn cynrychioli amrywiaeth ein cymunedau lleol yn well. Edrychwn ymlaen at weithio ar y cyd â rhanddeiliaid eraill ledled Cymru i gyflawni hyn.

Frances Duffy
Cadeirydd
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cip ar y Panel

## Ein rôl

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu lefel taliadau i aelodau etholedig cynghorau, awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru.

## Ein huchelgais

Cefnogi democratiaeth leol, gan roi llais i gymunedau, drwy sefydlu fframwaith cydnabyddiaeth ariannol priodol a theg, sy'n annog cynhwysiant a chyfranogi.

## Ein nodau

Dylai ein Penderfyniadau sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn rhesymol, yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, ac yn cael eu gwneud o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Dylai ein Penderfyniadau gefnogi aelodau etholedig o ystod eang o gefndiroedd ac ni ddylai lefelau cydnabyddiaeth ariannol rwystro cyfranogi.

## Ein Hamcanion Strategol

- penderfyniadau ar sail tystiolaeth
- cyfathrebu clir a hygyrch
- ymgysylltu ac ymgynghori rhagweithiol
- fframwaith cydymffurfio ac adrodd symlach
- gweithio ar y cyd

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Yr Aelodau o'r Panel

Y Cadeirydd, Frances Duffy
Yr Is-gadeirydd, Saz Whilley
Aelodau, Bev Smith

# Cyd-destun ein Gwaith

Mae **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011** (y Mesur) yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau a phensiynau aelodau o awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel).

Mae'r Panel yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol sy'n nodi ein Penderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol a sail ein penderfyniadau. Fel sy'n ofynnol o dan y Mesur, cyhoeddir Adroddiad drafft i ymgynghori arno, cyn cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol fis Chwefror bob blwyddyn. Mae'r Adroddiad Terfynol yn nodi'r taliadau sydd i'w gwneud i aelodau etholedig, a phan fo'n berthnasol aelodau cyfetholedig, ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod. Mae hefyd yn darparu Canllawiau ar sut y dylid rhoi'r Penderfyniadau ar waith.

## Model fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol presennol

Ar ddechrau'r tymor etholiadol presennol (2022 i 2027), ailsefydlodd y Panel y cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol aelodau prif gynghorau ac enillion eu hetholwyr. Mae'r Panel yn amcangyfrif mai ymrwymiad amser cyfartalog aelod yw tri diwrnod a bod Arweinwyr, Dirprwy Arweinwyr ac aelodau Gweithredol yn gweithio swm sy'n gyfwerth â phum diwrnod yr wythnos. Ymrwymiad amser cyfartalog aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Achub yw 44 a 22 o ddiwrnodau yn y drefn honno.

Felly, gosodwyd y cyflog sylfaenol ar dair rhan o bump o enillion gros canolrifol cyflogeion amser llawn yng Nghymru fel y'u nodwyd yn yr **Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion** (ASHE) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ac eithrio ar gyfer aelodau o Gynghorau Cymuned a Thref ac aelodau cyfetholedig, mae'r holl daliadau uwch a thaliadau eraill yn lluosyddion neu'n gyfrannau o'r taliad sylfaenol. Mae hyn yn cydnabod ymrwymiad amser, cyfrifoldeb a chymhlethdod ychwanegol eu rolau.

Telir cyfradd y dydd i aelodau cyfetholedig am gyfarfodydd ac amser teithio a gwaith paratoi rhesymol cysylltiedig, fel y rhagbennir gan y swyddog priodol.

Ceir fframwaith ar wahân ar gyfer taliadau Cynghorau Cymuned a Thref. Prif ddiben hyn yw sicrhau bod aelodau'n cael eu had-dalu am eu gwariant wrth gyflawni eu dyletswyddau. Mae gan aelodau â chyfrifoldebau ychwanegol hawl i daliad uwch.

Caiff pob aelod hawlio cyfraniad at Gostau Gofal a Chymorth Personol ac ad-daliad o gostau Teithio a Chynhaliaeth pan fyddant ar fusnes swyddogol. Tra mae pob taliad sylfaenol yn orfodol, caiff cynghorwyr ddewis yn unigol i ildio eu cydnabyddiaeth ariannol i gyd, neu ran ohoni.

# Ein nodau a'n ffyrdd o weithio

## Ein ffyrdd o weithio

Er mwyn cyflawni ein nodau, mae'r Panel wedi nodi set o egwyddorion ar gyfer sut y byddwn yn gweithio, gyda'n gilydd, gyda phartneriaid, gyda rhanddeiliaid a chyda'r cyhoedd.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Yr egwyddorion hyn yw:

- Ein bod yn cael ein cydnabod fel arbenigwyr drwy ddefnyddio’r dystiolaeth, yr ymchwil a’r cymaryddion diweddaraf.
- Ein bod yn adnabyddus am ein dull cydweithredol o weithio drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth inni gasglu tystiolaeth a sganio’r gorwel.
- Ein bod yn gweithio ar y cyd ag eraill i hyrwyddo democratiaeth leol amrywiol, iach a ffyniannus ledled Cymru.
- Ein bod yn bartner y gellir ymddiried ynddo sy’n darparu fframwaith cydnabyddiaeth ariannol teg drwy fod yn dryloyw am ein penderfyniadau ac yn agored i adborth.
- Ein bod yn atebol i gymunedau lleol drwy ein gwaith ymgysylltu a chyfathrebu a sicrhau bod ein penderfyniadau’n cael eu hystyried yn rhai teg, rhesymol a fforddiadwy.
- Ein bod yn cael ein cydnabod am ein proffesiynoldeb yn ansawdd ein Hadroddiadau a’n Cyfathrebiadau.

## Ein nodau

Dylai ein Penderfyniadau sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn rhesymol, yn rhoi gwerth am arian i'r trethdalwr, ac yn cael eu gwneud o fewn cyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.

Dylai ein Penderfyniadau gefnogi aelodau etholedig o ystod eang o gefndiroedd ac ni ddylai lefelau cydnabyddiaeth ariannol rwystro cyfranogi.

# Edrych ymlaen

Wrth ddatblygu ein Strategaeth, edrychodd y Panel ymlaen at y cyfnod rhwng nawr a’r etholiadau nesaf. Mae sawl mater o bwys sy’n debygol o effeithio ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

waith y Panel ac y byddwn yn eu hystyried wrth wneud ein Penderfyniadau.

## Canfyddiadau'r cyhoedd o ddemocratiaeth leol a rôl aelodau etholedig

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyfres o bapurau ymchwil ar gyfranogi ac amrywiaeth mewn democratiaeth leol. Mae'r rhain yn dangos bod lefel ymwybyddiaeth y cyhoedd o rôl aelodau etholedig, ac o'r cymorth ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol iddynt, yn isel. Maent hefyd yn dangos bod gwaith aelodau etholedig yn cynyddu a'i fod yn amrywiol. Gall y Panel chwarae rôl o ran hyrwyddo democratiaeth leol drwy ei waith ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd yn ehangach.

## Effaith y pwysau diweddar yn sgil costau byw/chwyddiant ar gyllidebau cynghorau ac aelodau etholedig unigol

Yn yr adborth i'n Hadroddiad Blynyddol a'n Penderfyniadau ar gyfer 2023, soniodd ymatebwyr am y pwysau cynyddol ar gyllidebau cynghorau, gan gydnabod y baich cynyddol ar aelodau unigol. Mae'r Panel yn ystyriol o'r effaith gyffredinol ar gyllidebau cynghorau ond mae'n parhau i hyrwyddo polisïau cydnabyddiaeth ariannol i annog a chefnogi grŵp amrywiol o bobl i sefyll am rolau etholedig.

## Papur Gwyn a throsi i drefniadau llywodraethiant newydd

Croesawir y cynigion i drosglwyddo pwerau'r Panel i'r Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol. Serch hynny, mae'r Panel yn nodi y bydd angen cynllunio hyn yn ofalus ac y bydd angen cymorth trosiannol.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Newidiadau mewn patrymau gweithio ar ôl Covid a chydnabod manteision a heriau diwygio digidol

Mae’n amlwg bod newid sylweddol wedi bod yn y ffordd y mae aelodau etholedig yn cyflawni eu swyddogaethau. Gall polisïau cydnabyddiaeth ariannol fod yn ffordd bwysig o gefnogi’r newid hwn. Mae’r Panel ei hun yn parhau i groesawu ffyrdd digidol newydd o weithio.

## Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol a’r angen i ystyried y Newid yn yr Hinsawdd

Bydd gwaith y Panel yn cyfrannu at feithrin cymunedau lleol llewyrchus fel rhan o’i ymrwymiad i saith egwyddor y Ddeddf. Gall y pecynnau a’r polisïau cydnabyddiaeth ariannol gyfrannu at ein heriau o ran y newid yn yr hinsawdd drwy annog arferion teithio gwyrdd a gweithio digidol, megis cyfarfodydd ar-lein.

# Amcanion Strategol

Dyma’r tro cyntaf i’r Panel osod ein Strategaeth gyda nodau ac amcanion wedi’u diffinio’n glir. Bydd ein dogfennau ategol, sef Cynllun Gwaith blynyddol, Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu a Chynllun Ymchwil a Thystiolaeth, yn nodi ein camau ar hyd y ffordd.

Mae’r Panel wedi cytuno ar bum amcan strategol a fydd yn cael eu cyflawni dros y 2 flynedd nesaf wrth inni drosi i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol newydd Cymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Amcan 1: penderfyniadau ar sail tystiolaeth

Byddwn yn adolygu ein fframwaith cydnabyddiaeth ariannol, ym mhob tymor etholiadol, i adlewyrchu rôl newidiol aelodau etholedig a helpu i gael gwared ag unrhyw beth sy'n rhwystro cyfranogi.

## Amcan 2: cyfathrebu clir a hygyrch

Byddwn yn diweddaru ein gwefan, ein cyhoeddiadau, a'n canllawiau fel y byddant yn glir, yn hawdd eu defnyddio ac yn hygyrch i bawb.

## Amcan 3: ymgysylltu ac ymgynghori rhagweithiol

Byddwn yn ymgysylltu â'n rhanddeiliaid i ddeall sut y mae ein penderfyniadau'n cael eu rhoi ar waith ac i ddysgu'n barhaus.

## Amcan 4: fframwaith cydymffurfio ac adrodd symlach

Byddwn yn llunio fframwaith cydymffurfio ac adrodd symlach, un sy'n cefnogi ein cynllun ymchwil a thystiolaeth, gan gynnal prosesau cadw cydbwysedd priodol.

## Amcan 5: gweithio ar y cyd

Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hyrwyddo democratiaeth leol iach, ffyniannus ac amrywiol yng Nghymru.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Mesur Llwyddiant

Bydd gennym ffyrdd ansoddol a meintiol o fesur effaith ein Penderfyniadau.

Bydd y rhain yn cynnwys:

- data a gesglir o'r ffurflenni blynyddol a gyflwynir gan gynghorau
- adborth o'n gwaith ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid
- ymchwil i ganfyddiadau'r cyhoedd o ddemocratiaeth leol
- data ar amrywiaeth aelodau etholedig a lefelau cyfranogi

Byddwn yn agored ac yn dryloyw ac yn dangos ein bod yn gweithio'n effeithiol drwy adrodd ar ein cyflawniadau yn erbyn ein Strategaeth a'r canlynol:

- Cynllun Gwaith Blynyddol
- Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu
- Cynllun Ymchwil a Thystiolaeth

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/panel-annibynnol-cymru-ar-gydnabyddiaeth-ariannol-strategaeth-2023-i-2025-html** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.